**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Tachwedd 2017

Annwyl Mr Ramsay,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref 2017 ynghylch yr heriau sy'n ymwneud â digideiddio, yn dilyn sesiwn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 2 Hydref 2017.

Diolch am y cyfle i rannu Cynllun Gweithredu Digidol 2017-2020 Llywodraeth Cymru gyda'r Pwyllgor; rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cydnabod ei werth. Fel y nodir yn eich llythyr, dogfen fewnol yw'r Cynllun Gweithredu Digidol. Ei nod yw helpu i wella systemau mewnol y sefydliad a sgiliau digidol y staff, a thrwy hynny, wella'r gwasanaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i gwsmeriaid allanol megis ffermwyr, busnesau, darparwyr cartrefi gofal, gwarchodwyr plant, ac eraill. Mae fy menter 'paratoi at y dyfodol' yn edrych yn fanwl ar y sgiliau a'r dulliau gweithredu a fydd yn hollol hanfodol i lwyddiant gwaith Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod, ac rwy'n hyderus y bydd y fenter hon, ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu, yn ein helpu i sicrhau bod gweithio'n ddigidol yn dod yn rhan annatod o fywyd gwaith bob dydd ein staff er mwyn inni allu darparu'r gwasanaethau digidol mwyaf effeithlon.

Mae'n ddrwg gennyf fod y Pwyllgor yn teimlo nad oeddwn yn gallu ymateb i'w gwestiynau ehangach ynghylch polisi digidol Llywodraeth Cymru. Yn strategaeth genedlaethol y Llywodraeth, *Ffyniant i Bawb,* rhoddir sylw i wasanaethau digidol, sgiliau a llythrennedd, seilwaith, a phresenoldeb digidol byd-eang Llywodraeth Cymru ar draws pedair thema allweddol y strategaeth.

Wrth gwrs mater i Julie James, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, yw polisi digidol Llywodraeth Cymru. Fel y gŵyr y Pwyllgor, mae portffolio Julie James bellach yn cynnwys seilwaith digidol, gan gynnwys seilwaith band eang a symudol; trawsnewid gwasanaethau digidol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru; a chynhwysiant digidol. Rwyf wedi trafod yr ymateb hwn gyda'r Gweinidog, ac mae hi wedi cadarnhau y byddai'n fodlon ymddangos gerbron y Pwyllgor Cynulliad priodol ar gyfer sesiwn ar faterion digidol.

O ran hunanasesiad Llywodraeth Cymru o'i gallu digidol, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor bod asesiadau allanol o'n perfformiad, megis nifer o wahanol wobrau ar lefelau Cymru a'r DU, wedi cael eu defnyddio fel tystiolaeth yn ein hymarfer hunanasesu diweddaraf. Hefyd defnyddiwyd tystiolaeth o gynnydd yn y defnydd o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y llwyr bwynt y Pwyllgor ynghylch gwerth dilysu allanol, ac rwyf wedi gofyn i'm cydweithwyr ystyried sut y gellid manteisio mwy ar hynny yn y dyfodol.

Rwy'n awyddus i sicrhau'r Pwyllgor fy mod yn ystyried y maes hwn yn un gwbl hanfodol ac yn faes heriol. Rwy'n credu ein bod ni yn Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau rhagorol a buddiol, ond wrth gwrs bod digon o le o hyd inni wella, dysgu, a symud ymlaen at lefelau uwch o lwyddiant. Byddaf yn parhau i gymryd diddordeb personol a manwl yn hynt y gwaith hwn yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei ddiddordeb mewn sut y bydd materion digidol yn berthnasol i'r broses recriwtio ddiweddar i'r ddwy swydd Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'r sgiliau i wneud polisïau arloesol ac effeithiol, sy'n sicrhau gwerth am arian, yn ogystal â darparu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf ar gyfer pobl Cymru, yn ofynion craidd ar gyfer y ddwy rôl hyn. Ni chyfeiriwyd at sgiliau digidol yn benodol yn y disgrifiadau o'r swyddi hyn, nid oherwydd fy mod o'r farn eu bod yn llai pwysig, ond oherwydd bod sgiliau digidol yn elfen uniongyrchol ac anhepgor o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf na ellir ei gwahanu oddi wrth y broses gyflenwi. Ar gyfer y lefel hon o gyfrifoldeb yn Llywodraeth Cymru, rwy'n chwilio am ymgeiswyr sy'n gwbl ymwybodol o bwysigrwydd y maes digidol a'r rôl y mae'n ei chwarae yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau, ac sydd hefyd yn meddu ar yr arloesedd a'r hyblygrwydd i ganfod cyfleoedd a'u hyrwyddo er mwyn cael y manteision gorau o'r dechnoleg. Bellach, mae'r cyfweliadau ar gyfer y ddwy swydd wedi eu cynnal, ac rwy'n disgwyl gwneud cyhoeddiad maes o law. Rwy'n falch o allu dweud y cafwyd ymgeiswyr rhagorol ar gyfer y swyddi hyn, ac rwy'n gwybod y bydd ymwybyddiaeth o faterion a chyfleoedd digidol, a brwdfrydedd yn eu cylch, ymysg yr ystod eang o ddulliau gweithredu, sgiliau, a gwybodaeth y bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn eu cyfrannu i'r rolau hanfodol hyn.


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● website: www.gov.wales

Rwy'n gobeithio y bydd y diweddariad hwn o fudd i'r Pwyllgor. Byddaf yn hapus i roi diweddariadau pellach i'r Pwyllgor os bydd yn dymuno hynny.

Yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government